

# Adroddiad ar Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (lle rhoddwyd rhybudd)

Signature Clinic, Caerdydd

Dyddiad yr arolygiad: 16 Ionawr 2026

Dyddiad cyhoeddi: 20 Ebrill 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [agic@llyw.cymru](mailto:agic@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad .....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym .....	10
	• Ansawdd Profiad y Claf .....	10
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .....	14
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....	20
4.	Y camau nesaf .....	23
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .....	24
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith .....	25
	Atodiad C - Cynllun gwella .....	26

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Signature Clinic ar 16 Ionawr 2026.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o uwch-arolygwyr gofal iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid clinigol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o bedwar holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd pedwar gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y gwasanaeth yn hyrwyddo'r broses o ddiogelu a gwella iechyd drwy gynnal trafodaethau rheolaidd yn ystod ymgynghoriadau, lle roedd y staff yn cynnig cyngor wedi'i bersonoli i gefnogi triniaeth ac adferiad y cleifion. Roedd deunyddiau ysgrifenedig ychwanegol wedi'u harddangos yn glir yn ardal y dderbynfa yn Gymraeg ac yn Saesneg, a oedd yn rhoi arweiniad ar roi'r gorau i smygu, ymwybyddiaeth o heintiau, gofal clwyfau a hydradu. Roedd posteri am brosesau atal heintiau a diogelu yn pwysleisio negeseuon allweddol ymhellach.

Roedd y staff yn trin cleifion ag urddas a pharch, ac yn rhyngweithio â nhw mewn ffordd garedig a phroffesiynol. Roedd preifatrwydd yn cael ei gynnal drwy sgysiau cyfrinachol, cau cysau, a defnyddio sgriniau neu lenni. Roedd y trefniadau ar gyfer hebryngwyr yn cael eu cyfleu'n glir, a'u hategu gan bolisi cyfredol, ac roedd cleifion yn cael gwybod am eu hawl i ofyn am hebryngwr.

Roedd gwybodaeth gyfredol am gleifion, gan gynnwys y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion, ar gael mewn fformatau hygyrch, ac roedd y deunyddiau craidd yn cael eu darparu yn Gymraeg ac mewn ieithoedd amgen ar gais. Roedd cleifion yn cael gwybod am opsiynau triniaeth, costau, a chyfarwyddiadau ar ôl triniaeth, ac roedd copïau papur ar gael i'r rhai heb fynediad at ddyfeisiau digidol. Roedd polisi cyfredol ar ddarparu gwybodaeth hygyrch ar waith.

Roedd y prosesau cydsynio yn dilyn polisi ysgrifenedig, ac roedd cydsyniad yn cael ei gasglu ar ddiwrnod y driniaeth yn dilyn ymgynghoriad bythefnos ynghynt. Roedd y ffurflenni cydsynio wedi cael eu diweddar'u'n ddiweddar er mwyn sicrhau eu bod yn eglur, ac roedd system ddigidol newydd wedi cael ei datblygu i roi amser i gleifion adolygu gwybodaeth cyn cadarnhau eu bod yn cydsynio yn electronig.

Roedd cleifion yn cael eu hysbysu am amseroedd aros ac unrhyw oedi posibl, ac roeddent yn cael eu hysbysu ymlaen llaw am unrhyw faterion yn ymwneud â thraffig. Roedd cymorth ôl-ofal ar gael, gan gynnwys cyngor clir wrth ryddhau cleifion a rhif cyswllt dynodedig. Roedd cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu hyrwyddo drwy bolisi cyfredol, mesurau hygyrchedd ymarferol, ac arferion staff a oedd yn amddiffyn cleifion rhag achosion o wahaniaethu, gan gynnwys dulliau cyfathrebu parchus â chleifion trawsryweddol.

Roedd adborth gan gleifion yn cael ei gasglu drwy ddulliau digidol a phapur ac yn cael ei ddadansoddi gan Reolwr Profiad y Claf a'i ddefnyddio i lywio gwelliannau parhaus i'r gwasanaeth, a rannwyd â'r staff.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch bob amser
- Roedd cymorth ôl-ofal ar gael, gan gynnwys rhif cyswllt dynodedig
- Roedd adborth yn cael ei gasglu a'i adolygu gan Reolwr Profiad y Claf.

## **Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol**

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y clinig wedi'i leoli ar lawr gwaelod adeilad mewn parc busnes ac roedd yn lân, yn daclus ac mewn cyflwr da. Gellid mynd i mewn i'r adeilad yn ddiogel drwy ddefnyddio system intercom ac roedd lleoedd parcio ar gael y tu allan. Roedd yr amgylchedd yn ddiogel ac yn cael ei reoli'n dda, ond roedd rhan o'r llawr nad oedd wedi cael ei chwblhau ger y fynedfa i Theatr 2 yn peri risg posibl o faglu a risg o ran rheoli heintiau; roedd hyn eisoes wedi'i nodi'n fater yr oedd angen ymdrin ag ef yn yr ardal i staff yn unig, ac roedd wedi'i ychwanegu at gofrestr risgiau'r darparwr.

Roedd y trefniadau diogelwch tân yn gadarn, ac wedi'u hategu gan asesiad risg tân cyfredol, arwyddion clir, gwiriadau rheolaidd o'r cyfarpar, a chydymffurfiaeth o 100% â hyfforddiant tân ymhlith y staff.

Roedd cynlluniau parhad busnes, gweithdrefnau uwchgyfeirio a threfniadau cymorth cyntaf ar waith ac roedd y staff yn eu deall. Roedd risgiau i iechyd a diogelwch wedi cael eu hasesu, ac roedd camau gweithredu'n cael eu monitro, gan gynnwys y gwaith i drwsio'r llawr.

Roedd systemau atal a rheoli heintiau wedi'u sefydlu'n dda, wedi'u hategu gan bolisiau cyfredol, llwybrau archwilio, cyfleusterau hylendid dwylo, a threfniadau gwaredu gwastraff priodol, ac roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau.

Roedd meddyginiaethau'n cael eu storio'n ddiogel mewn cypyrddau dan glo ac roedd y cofnodion rhoi meddyginiaeth yn cael eu cadw'n gywir. Roedd trefniadau presgripsiynu diogel hefyd ar waith, wedi'u hategu gan oruchwyliaeth gan y fferylllydd a strwythur llywodraethu clir; roedd cyffuriau a chyfarpar brys ar gael ac yn cael eu gwirio'n rheolaidd, ac roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant BOC ar ocsigen.

Roedd y systemau diogelu yn gadarn ac roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu. Roedd gweithdrefnau clir hefyd ar waith ac roedd gwybodaeth gyswllt i'w

gweld yn amlwg. Nid oedd plant yn cael mynediad i'r safle. Roedd y cyfarpar yn briodol, yn cael ei ddefnyddio unwaith yn unig, yn cael ei gynnal a'i gadw, ac yn cael ddogfennu, ac roedd unrhyw ddiffygion yn cael eu cofnodi a'u rheoli'n effeithiol.

Roedd ymarfer seiliedig ar dystiolaeth yn cael ei gefnogi drwy ddilyn canllawiau NICE, AAGBI, AFPP, y Cyngor Adfywio a NATSIPP, ac roedd polisiau'n cael eu diweddarau drwy brosesau llywodraethu grŵp a lleol. Roedd y systemau gwella ansawdd wedi cael eu hatgyfnerthu gan rolau arwain newydd, prosesau adborth strwythuredig, a phroses adrodd clir i AGIC.

Roedd ymgynoriadau o bell yn cael eu cynnal yn ddiogel drwy ddefnyddio Webex, ac roedd cofnodion cleifion yn cael eu cadw i safon uchel, yn gywir ac yn gyflawn, ac yn cael eu storio'n ddiogel.

Ar y cyfan, roedd tystiolaeth dda o drefniadau llywodraethu cadarn a chyson ym mhob rhan o'r gwasanaeth.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid trwsio'r llawr ger mynedfa Theatr 2.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd prosesau atal a rheoli heintiau wedi'u sefydlu'n dda
- Roedd meddyginiaethau'n cael eu storio'n briodol ac roedd cofnodion o'r stoc yn cael eu cynnal
- Roedd y cofnodion mewn cyflwr da ac yn cael eu storio'n ddiogel.

## **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth**

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y gwasanaeth yn cael ei arwain a'i reoli'n dda, ac roedd fframwaith llywodraethu clir a phrosesau goruchwyllo strwythuredig ar waith. Roedd y Datganiad o Ddiben a'r Canllaw i Gleifion diweddaraf ar gael ac yn gyffredol, ac roedd gwasanaethau'n cael eu darparu yn unol â'r dogfennau hyn.

Roedd y trefniadau llywodraethu yn cynnwys cyfarfodydd misol yr Uwch-dîm Arwain a chyfarfodydd Llywodraethu Clinigol misol, ochr yn ochr â chyfarfodydd atal a rheoli heintiau, ymarfer rheoleiddio, diogelu, ac iechyd a diogelwch bob chwarter, yr oedd gan bob un ohonynt gylch gorchwyl ffurfiol.

Roedd polisiau'n cael eu hadolygu drwy broses gymeradwyo strwythuredig, ac roedd y staff yn cael eu hysbysu am unrhyw ddiweddariadau drwy lwyfan

llywodraethu Radar, a oedd hefyd yn storio Gweithdrefnau Diogelu Safonol, asesiadau risg, cofnodion digwyddiadau, archwiliadau a chwynion.

Roedd hysbysiadau diogelwch gan yr MHRA a Llywodraeth Cymru yn cael eu hadolygu mewn cyfarfodydd llywodraethu ac yn cael eu rhannu â'r rheolwyr er mwyn iddynt weithredu arnynt. Roedd tystysgrifau cofrestru AGIC a thystysgrifau yswiriant wedi'u harddangos yn briodol.

Roedd prosesau cwyno sefydledig, hygrych, a thryloyw ar waith ac roedd cwynion yn cael eu cofnodi, eu harchwilio mewn modd amserol, a'u goruchwylir gan y Rheolwr Cwynion a Rheolwr Profiad y Claf. Cofnodwyd 14 o gwynion yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, y cafodd pob un ohonynt eu datrys ar gam un neu dau, a defnyddiwyd y gwersi a ddysgwyd i wella cydsyniad, dulliau cyfathrebu, a phrosesau rheoli disgwyliadau. Roedd y staff yn deall y weithdrefn ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau hysbysadwy i AGIC, ac roedd galwadau gweithredol dyddiol yn ategu'r broses o uwchgyfeirio materion yn gynnar. Roedd arferion y gweithlu yn gadarn, ac roedd prosesau recriwtio yn cael eu cynnal yn unol â'r gofynion rheoliadol, gan gynnwys gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), geirdaon, cadarnhad o gymwysterau, a gwiriadau misol o gofrestriadau proffesiynol. Roedd breintiau ymarfer yn cael eu rheoli'n briodol, ac roedd addasrwydd parhaus yn cael ei fonitro drwy sesiynau goruchwyllo a thrwy adnewyddu gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd bob tair blynedd.

Roedd lefelau staffio yn cael eu cynnal yn unol â'r galw gan gleifion, ac roedd niferoedd cyson o staff clinigol a gweinyddol ar gael ar safle'r ddau glinig. Roedd hyfforddiant gorfodol yn cael ei fonitro drwy'r system adnoddau dynol, ac roedd y staff yn cael eu cefnogi drwy drefniadau chwythu'r chwiban cyfredol a gwybodaeth hygrych ar hysbysfyddau'r staff, gan gynnwys manylion cyswllt diogelu, adnoddau llesiant, a gwersi a ddysgwyd. Ar y cyfan, roedd y prosesau datblygu sefydliadol, hyfforddiant a llywodraethu'r gweithlu wedi'u strwythuro'n dda, a oedd yn sicrhau bod y tîm o staff yn ddiogel, yn gymwys, ac yn cael ei gefnogi'n dda.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y gwasanaeth yn cael ei reoli'n dda ac roedd fframwaith llywodraethu clir ar waith
- Roedd y polisiau gofynnol ar gael ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd
- Roedd cofnodion y staff yn cael eu cadw'n dda ac yn cynnwys yr holl wiriadau cyn cyflogi gofynnol.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith wedi'u nodi yn [Atodiad B](#).

## 3. Yr hyn a nodwyd gennym

### Ansawdd Profiad y Claf

#### Diogelu a gwella iechyd

Roedd ffyrdd iach o fyw yn cael eu hyrwyddo i gleifion drwy drafodaethau yn ystod ymgynghoriadau, lle roedd y staff yn cynnig cyngor a oedd yn berthnasol i driniaeth ac adferiad yr unigolyn.

Roedd deunyddiau hybu iechyd ychwanegol wedi'u harddangos yn glir yn ardal y dderbynfa, a oedd yn sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn hygyrch i gleifion wrth iddynt aros i gael eu gweld. Roedd y wybodaeth a oedd ar gael yn briodol i'r gwasanaethau a gynigir ac roedd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Roedd y wybodaeth yn cynnwys canllawiau ar roi'r gorau i smygu, cyngor ar ddeall heintiau a gofalu am glwyfau gartref, a deunyddiau hyrwyddo hydradu da.

Roedd posterï yn amlinellu negeseuon allweddol i atal a rheoli heintiau hefyd yn weladwy ac yn helpu i bwysleisio arferion diogel mewn amgylchedd clinigol. Roedd poster diogelu wedi'i arddangos i godi ymwybyddiaeth o lwybrau cymorth ac i annog cleifion i ofyn am help pan fo angen. Ar y cyfan, roedd gwybodaeth hybu iechyd wedi cael ei darparu'n gyson drwy ryngweithiadau clinigol uniongyrchol a gwybodaeth ysgrifenedig hygyrch, gan gefnogi cleifion i reoli eu hiechyd yn effeithiol.

#### Urddas a pharch

Gwelsom y staff yn trin cleifion â pharch a charedigrwydd, gan ymgysylltu â nhw mewn ffordd gwrtais a phroffesiynol drwy gydol yr ymweliad. Roedd y cleifion yn cael eu trin yn briodol, ac roedd y staff yn cyfathrebu mewn ffordd dawel a chefnogol a oedd yn canolbwyntio ar y claf.

Gwelsom y staff yn parchu preifatrwydd ac urddas y cleifion hefyd, gan siarad yn gyfrinachol â nhw wrth drafod materion clinigol a sicrhau nad oedd neb arall yn gallu eu clywed.

Roedd drysau'n cael eu cadw ar gau yn ystod ymgynghoriadau a thriniaethau, ac roedd mesurau preifatrwydd fel sgriniau neu lenni yn cael eu defnyddio'n briodol wrth ddarparu gofal.

Roedd y trefniadau ar gyfer hebryngwyr yn cael eu cyfleu'n glir, ac roeddent wedi'u hategu gan bolisi hebryngwr cyfredol a oedd ar gael i'r staff gyfeirio ato. Rhoddwyd gwybod i gleifion y gallent ofyn am hebryngwr pe bai angen, er mwyn sicrhau eu

bod yn deall eu hawliau a'r cymorth a oedd ar gael. Ar y cyfan, dangosodd yr arsylwadau fod y staff yn cynnal urddas a phreifatrwydd yn gyson ac yn darparu gofal parchus.

### **Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion**

Roedd y datganiad o ddiben ar gael i gleifion yn yr ardal aros a gellid ei ddarparu ar gais mewn print bras neu ieithoedd amgen. Roedd y ddogfen yn gyfredol ac yn cynnwys y wybodaeth ofynnol. Roedd y canllaw i gleifion ar gael yn yr un modd ac roedd yn gyfredol ac yn cydymffurfio â'r gofynion rheoliadol.

Roedd y wybodaeth i gleifion yn ystyried anghenion iaith a chyfathrebu unigol, ac roedd yr holl ddeunyddiau craidd ar gael yn Gymraeg ac mewn fformatau iaith ychwanegol ar gais.

Dywedwyd wrth gleifion am eu hopsiynau triniaeth, y gofal roeddent yn ei gael, ac unrhyw gyfarwyddiadau ôl-driniaeth yn ystod ymgynghoriadau, ac roedd costau triniaethau yn cael eu hesbonio ar y cam hwn hefyd.

Roedd pobl hŷn a'r rhai heb fynediad at ddyfeisiau digidol yn cael eu cefnogi drwy ddarparu copiâu papur o wybodaeth, a gellid trefnu apwyntiadau'n hawdd dros y ffôn.

Roedd polisi cyfredol ar ddarparu gwybodaeth i gleifion ar waith a oedd yn amlinellu'r disgwyliadau o ran dulliau cyfathrebu hygyrch. Ar y cyfan, roedd y gwasanaeth yn sicrhau bod cleifion yn cael gwybodaeth glir a hygyrch a oedd wedi'i fformatio'n briodol a'i theilwra at eu hanghenion.

### **Cyfathrebu'n effeithiol**

Gwelwyd bod polisi ysgrifenedig cyfredol ar waith ar gyfer casglu cydsyniad ar sail gwybodaeth. Fel rhan o'r broses gydsynio, byddai cleifion yn dod i'r clinig am ymgynghoriad a byddai triniaethau'n cael eu trefnu tua phythefnos yn ddiweddarach, a byddai'r ffurflen gydsynio fel arfer yn cael ei llofnodi ar ddiwrnod y driniaeth.

Roedd y ffurflenni cydsynio wedi cael eu hailysgrifennu a'u crynhoi gan yr arweinydd clinigol yn ddiweddar i'w gwneud yn fwy eglur. Ar adeg yr ymweliad, roedd cydsyniad yn parhau i gael ei gasglu ar ddiwrnod y driniaeth, bythefnos ar ôl yr ymgynghoriad cychwynnol. Fodd bynnag, roedd proses gydsynio ddigidol newydd wedi cael ei datblygu, lle byddai dogfennaeth gydsynio yn cael ei ddarparu i gleifion ar ddiwrnod yr ymgynghoriad, er mwyn rhoi amser iddynt ddarllen y wybodaeth cyn cadarnhau eu bod yn cydsynio yn electronig. Roedd y dull diwygiedig hwn yn rhoi mwy o amser iddynt wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth cyn y driniaeth ac, ar yr un pryd, yn sicrhau bod bwllch o bythefnos fel sy'n ofynnol.

Ar y cyfan, roedd y prosesau cydsynio yn cael eu hatgyfnerthu drwy ddogfennaeth ddiwygiedig a gwelliannau digidol arfaethedig.

### **Cynllunio a darparu gofal**

Roedd staff y dderbynfa neu aelodau eraill o'r staff yn rhoi gwybod i gleifion am amseroedd aros ac unrhyw oedi os oedd y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn rhedeg yn hwyr. Ar ddiwrnodau lle y gallai problemau traffig neu achosion o gau ffyrdd effeithio ar y gallu i gyrraedd y clinig, byddai'r gwasanaeth yn cysylltu â chleifion ymlaen llaw i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r amhariadau posibl hyn.

Gallai cleifion hefyd gael cymorth amserol cyn, yn ystod ac ar ôl triniaeth, ac roedd cyngor ôl-ofal clir yn cael ei roi wrth eu rhyddhau. Roedd rhif ffôn dynodedig hefyd yn cael ei roi i gleifion er mwyn iddynt allu gofyn am gymorth neu roi gwybod am unrhyw bryderon ar ôl eu triniaeth.

Ar y cyfan, roedd y cyfathrebu ynghylch oedi a chymorth ar ôl triniaeth yn ymatebol ac yn cael eu rheoli'n dda.

### **Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol**

Roedd cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu hyrwyddo drwy bolisi cyfredol a oedd ar gael ac yn weladwy i'r staff. Roedd cleifion yn cael eu hamddiffyn rhag gwahaniaethu, a dywedodd y staff fod pob unigolyn yn cael ei drin yn gyfartal ni waeth beth fo'i nodweddion gwarchoddedig.

Roedd addasiadau rhesymol wedi'u gwneud i gefnogi mynediad teg, ac roedd y gwasanaeth wedi'i leoli ar y llawr gwaelod ac yn cynnwys drysau llydan. Roedd y staff hefyd yn helpu cleifion i fynd i mewn i'r adeilad lle bo angen. Roedd

Roedd y staff hefyd yn cynnal hawliau cydraddoldeb cleifion trawsryweddol drwy ofyn am eu henwau a'u rhagenwau a ffefrir, er mwyn sicrhau eu bod yn cyfathrebu mewn ffordd barchus a phriodol. Roedd addasiadau o ran iaith a fformat ar gael pan fo angen, a oedd yn cefnogi cynhwysiant ymhellach.

Ar y cyfan, roedd y gwasanaeth yn dangos ymrwymiad i ofal teg nad yw'n gwahaniaethu, ac roedd hyn wedi'i ategu gan bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth cyfredol a mesurau ymarferol a oedd yn galluogi pob claf i gael gwasanaethau ar sail gyfartal.

### **Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth**

Gwelsom fod adborth yn cael ei gasglu gan gleifion drwy sawl dull, gan gynnwys cod QR a oedd i'w weld yn ardal y dderbynfa a ffurflenni adborth papur a oedd yn

cael eu rhoi i gleifion yn syth ar ôl triniaeth. Roedd cleifion hefyd wedi cael eu cyfeirio at lwyfannau allanol fel Trustpilot a Google Reviews i roi adolygiadau.

Roedd Rheolwr Profiad y Claf yn coladu'r holl adborth ac yn ei ddadansoddi er mwyn nodi themâu a thueddiadau, gan ddefnyddio'r canfyddiadau i nodi lle y gellid addasu systemau i wella'r gwasanaeth, a thrafodwyd enghreifftiau o newidiadau yn ystod yr ymweliad. Roedd canlyniadau adborth gan gleifion wedi cael eu rhannu drwy gylchlythyr chwarterol a'u trafod mewn cyfarfodydd tîm, gan sicrhau bod y staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am farn cleifion a'r camau a gymerwyd mewn ymateb i adborth.

Ar y cyfan, roedd y dulliau adborth yn hygyrch, yn cael eu defnyddio'n rheolaidd, ac yn cyfrannu at welliannau parhaus i'r gwasanaeth.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Yr Amgylchedd

Roedd y clinig wedi'i leoli ar y llawr gwaelod mewn parc busnes. Roedd lleoedd parcio ar gael y tu allan i'r clinig. Roedd system intercom ar waith i atal mynediad heb awdurdod i'r adeilad, a dim ond cleifion a oedd wedi trefnu apwyntiadau ymlaen llaw allai fynd i mewn i'r clinig.

Roedd yr amgylchedd yn ymddangos yn lân iawn, yn daclus ac mewn cyflwr da, ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg fel annibendod neu risgiau baglu. Roedd mesurau diogelwch ar waith, gan gynnwys mynediad cyfyngedig yn ystod oriau gweithredu a drysau a ffenestri y gellid eu cloi. Fodd bynnag, gwelwyd nad oedd rhan o'r llawr ger mynedfa Theatr 2 wedi cael ei chwblhau a'i bod yn creu perygl baglu posibl yn ogystal â pheri pryder o ran rheoli heintiau. Dywedwyd wrthym fod y mater hwn eisoes wedi'i nodi a'i fod yn aros iddo gael ei atgyweirio. Ni allai cleifion fynd i'r ardal dan sylw; dim ond y staff oedd yn ei defnyddio, ac roedd y mater wedi'i ychwanegu at gofrestr risgiau'r darparwr.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y llawr ei atgyweirio cyn gynted â phosibl a darparu tystiolaeth o hyn i AGIC.**

Gwnaethom nodi bod adroddiad cyfredol ar yr arolygiad gosodiadau trydanol bob pum mlynedd ar waith, a oedd yn cadarnhau bod y system drydanol yn ddiogel. Gwelwyd tystiolaeth bod Profion Offer Cludadwy wedi cael eu cynnal a'u dogfennu'n briodol ar y dudalen cais am ddogfennau, a oedd yn cadarnhau bod cyfarpar trydanol yn cael ei gynnal yn ddiogel.

Ar y cyfan, roedd yr adeilad yn lân ac yn ddiogel.

## Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd asesiad risg tân cyfredol ar gael, yn ogystal â chynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd. Roedd tystiolaeth bod rhagofalon diogelwch tân wedi cael eu hadolygu o leiaf bob blwyddyn, ac roedd y cofnodlyfrau yn cadarnhau bod y cyfarpar canfod tân yn cael ei brofi'n rheolaidd a bod ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Roedd contract cynnal a chadw cyfarpar diogelwch tân ar waith, ac roedd y cofnodion Profion Offer Cludadwy yn dangos bod y cyfarpar hwn yn cael ei wasanaethu'n briodol. Roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelwch tân, gan sicrhau cydymffurfiaeth lawn.

Roedd arwyddion 'Dim Smygu' clir yn yr adeilad, ac roedd cyfarwyddiadau o ran y camau i'w cymryd pe bai tân wedi'u harddangos yn glir drwy arwyddion wedi'u goleuo a sticeri ar y waliau. Roedd yr allanfeydd tân yn ddigonol, ac roedd

arwyddion clir ar eu cyfer. Roedd diffoddwyr tân ar gael ac wedi'u lleoli'n briodol, a gwelsom dystiolaeth eu bod wedi cael eu gwasanaethu.

Ar y cyfan, roedd y trefniadau diogelwch tân yn gadarn, wedi'u dogfennu'n effeithiol, ac yn cael eu cynnal yn gyson.

Roedd gan y gwasanaeth bolisi uwchgyfeirio a Chynllun Parhad Busnes addas ar waith, ac roedd yr holl fanylion cyswllt allweddol ar gyfer gwasanaethau cyfleustodau a gwasanaethau hanfodol wedi'u storio yn y ffeil iechyd a diogelwch. Roedd polisi parhad cyffredinol hefyd yn cael ei ddatblygu i atgyfnerthu'r trefniadau presennol. Dangosodd y staff ddealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau mewn argyfwng, gan gynnwys pe bai tân neu phe bai claf yn llewygu. Roedd pecyn cymorth cyntaf llawn ar gael ar y safle, ac roedd yr holl eitemau wedi'u selio ac yn gyfredol. Ar y cyfan, roedd y trefniadau ar gyfer parodrwydd am argyfwng a chymorth cyntaf yn briodol ac roedd y staff yn eu deall, ac roeddent wedi'u hategu gan ddogfennaeth gyfredol.

Roedd asesiad risg lechyd a Diogelwch yn y gweithle addas a chyfredol wedi cael ei gwblhau, ac roedd y cynllun gweithredu llawn ar gael i'w weld. Roedd yr asesiad yn dangos bod risgiau wedi'u nodi a bod camau gweithredu wedi'u neilltuo, ac roedd dystiolaeth yn cadarnhau eu bod yn cael eu monitro'n barhaus. Roedd un cam gweithredu nad oedd wedi'i gwblhau yn ymwneud â'r llawr ger mynedfa Theatr 2, a nodwyd bod angen ei gwblhau. Ar y cyfan, roedd y ddogfennaeth yn dangos bod risgiau i iechyd a diogelwch wedi cael eu rheoli, a bod cynlluniau clir ar waith i fynd i'r afael â'r materion a oedd yn weddill.

### **Atal a rheoli heintiau a dihalogi**

Roedd y gwasanaeth wedi rhoi trefniadau effeithiol ar waith i atal a rheoli heintiau a dihalogi, ac roedd y rhain wedi'u hategu gan amserlenni glanhau, cofnodion archwilio, a 12 o bolisiau atal a rheoli heintiau cyfredol.

Roedd cyfleusterau hylendid dwylo a chyfarpar diogelu personol ar gael yn hwylus, ac roedd yr archwiliadau glanhau yn dangos bod safonau gofynnol wedi cael eu dilyn. Roedd contract cludo gwastraff cyfredol ar waith a oedd yn sicrhau bod gwastraff clinigol yn cael ei waredu'n briodol.

Roedd archwiliadau atal a rheoli heintiau a hylendid wedi cael eu cofnodi ar y system Radar ac wedi'u cyfeirio at y grŵp Llywodraethu Clinigol i'w hadolygu a'u rhoi ar waith.

Roedd cymorth lechyd Galwedigaethol wedi'i ddarparu drwy ddarparwr allanol. Roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau ar y lefel ofynnol, gan gynnwys cymwyseddau clinigol lle bo'n berthnasol.

Roedd polisiau addas ar gael yn ymwneud â dihalogi dyfeisiau meddygol a rheoli dŵr. Roedd un mater yn ymwneud ag atal a rheoli heintiau yn weddill mewn perthynas â'r llawr yn yr ardal anghlinigol ger mynedfa Theatr 2, yr oedd angen ei atgyweirio am na ellid ei lanhau'n ddigonol, ac roedd y mater wedi'i ychwanegu at gofrestr risgiau'r darparwr.

Roedd gan y gwasanaeth hefyd gontract ag Inzio i ddarparu nyrsys gofal cartref i drin clwyfau, ac roedd system olrhain yn cael ei chynnal ar gyfer cymhlethdodau a heintiau. Yn 2025, cofnodwyd pedwar achos o haint a dau glwyf.

Ar y cyfan, roedd y trefniadau atal a rheoli heintiau yn gadarn, yn cael eu monitro'n effeithiol ac wedi'u hategu gan brosesau llywodraethu clir.

### **Rheoli meddyginiaethau**

Roedd meddyginiaethau a ddefnyddiwyd gan y gwasanaeth yn cael eu storio'n ddiogel mewn cypyrddau dan glo, ac roedd yr holl eitemau'n cael eu cadw o dan yr amodau priodol. Roedd y staff yn cynnal cofnodion cywir o feddyginiaethau a roddwyd i gleifion, gan sicrhau bod pob cofnod yn cael ei lofnodi a'i esbonio i'r claf ar y pryd.

Roedd y trefniadau presgripsiynu yn cynnwys presgripsiynau electronig preifat o bell, a oedd yn cael eu rhoi i gleifion yr oedd angen diazepam arnynt ar gyfer gorbryder neu i'w tawelu. Roedd fferylllydd ar gael i roi cyngor ar unrhyw agwedd ar reoli meddyginiaethau, ac roedd y sefydliad ehangach yn gweithredu fferyllfa ganolog i gefnogi prosesau adborth a gorchwyllo digwyddiadau posibl. Roedd yr holl feddyginiaethau a oedd yn cael eu storio ar y safle yn cael eu cadw dan glo, ac roedd systemau monitro tymheredd ar waith i sicrhau eu bod yn cael eu storio'n ddiogel. Roedd gweithdrefnau priodol yn cael eu dilyn os oedd y tymereddau'n gostwng y tu hwnt i'r ystod ofynnol. Nid oedd y gwasanaeth yn defnyddio cyffuriau a reolir.

Gwelsom fod polisi rheoli meddyginiaethau cyfredol ar waith a oedd yn nodi systemau diogel ar gyfer archebu, storio, cyflenwi, a gwaredu meddyginiaethau.

Roedd y trefniadau brys yn cynnwys mynediad at gyffuriau brys ar y safle a'r weithdrefn ar gyfer cysylltu â'r gwasanaethau brys drwy ffonio 999 pe bai angen. Roedd yr holl gyffuriau a'r cyfarpar brys ar gael ac yn cael eu gwirio fel mater o drefn. Roeddent yn ddiogel i'w defnyddio, ac roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant cynnal bywyd sylfaenol.

Roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant BOC ar silindrau ocsigen, ac roeddent yn rhoi gwybod i'r fferylllydd am unrhyw ddamweiniau yn ymwneud â'r silindrau ocsigen, a oedd yn adolygu'r themâu ac yn rhannu'r gwersi a ddysgwyd â'r tîm lleol. Roedd yr uwch-aelodau o staff wedi bod yn rheoli'r broses o oruchwylio'r trefniadau llywodraethu mewn perthynas â diogelwch ocsigen a meddyginiaethau, ac roedd hysbysiadau gan MHRA yn cael eu monitro gan y fferyllfa a oedd yn hysbysu'r timau am unrhyw gamau gofynnol.

Rhodddwyd gwybod am ddigwyddiadau andwyol yn ymwneud â meddyginiaethau drwy systemau sefydledig dan oruchwyliaeth y fferylllydd. Ar y cyfan, roedd y gwasanaeth wedi cynnal trefniadau diogel a oedd yn cydymffurfio'n llawn ac wedi'u llywodraethu'n effeithiol ar gyfer meddyginiaethau a chyfarpar brys.

### **Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed**

Roedd y trefniadau diogelu wedi'u hategu gan bolisiau cyfredol a oedd yn cydymffurfio â deddfwriaeth genedlaethol a Gweithdrefnau Diogelu Cymru, ac roedd manylion cyswllt ar gyfer gwasanaethau diogelu i'w gweld yn glir.

Roedd gan y gwasanaeth arweinydd diogelu nodedig, ac roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu hyd at lefel 3. Dangosodd y staff ddealltwriaeth o'r weithdrefn ddiogelu, a gwnaethant nodi y byddai unrhyw bryderon yn cael eu rheoli'n unol â'r polisi, y byddai'r arweinydd diogelu yn cael ei hysbysu amdanynt, ac y byddent yn cael eu dogfennu drwy adroddiad ar ddigwyddiadau.

Nid oedd plant yn cael mynediad i'r adeilad, felly nid oedd angen trefniadau diogelu ychwanegol ar gyfer pobl ifanc dan oed. Roedd polisiau cyfredol ar ddiogelu a chwythu'r chwiban ar gael i'r staff, a oedd yn sicrhau y gallent godi pryderon yn briodol.

Ar y cyfan, roedd y trefniadau llywodraethu mewn perthynas â diogelu wedi'u sefydlu'n dda ac wedi'u hategu gan staff a oedd wedi cwblhau hyfforddiant, gweithdrefnau clir, a dogfennaeth polisi a oedd ar gael yn hwylus.

### **Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol**

Roedd y gwasanaeth yn defnyddio cyfarpar priodol i ddiwallu anghenion y cleifion, ac roedd yr holl eitemau bellach yn cael eu darparu fel eitemau untro i sicrhau diogelwch a hylendid. Roedd pob darn o gyfarpar yr oedd angen ei wasanaethu, ei gynnal a'i gadw neu ei galibradu wedi cael ei reoli'n unol ag argymhellion y gwneuthurwr, ac roedd dogfennaeth yn cadarnhau'r prosesau gosod, calibradu a gwasanaethu ar gael ac yn gyfredol.

Roedd cyfarpar diffygiol nad oedd yn cael ei ddefnyddio wedi'i farcio i ddangos hynny, ac roedd trefniadau wrth gefn ar waith i'w atal rhag cael ei ddefnyddio'n annïogel. Roedd cofnodion o ddiffygion a gwaith cynnal a chadw mewn perthynas â chyfarpar yn cael eu cadw mewn cofnodlyfr cynnal a chadw canolog yr oedd y peiriannydd biofeddygol dynodedig mewnol yn ei oruchwylïo, er mwyn sicrhau bod unrhyw faterion yn cael eu holrhain a'u rheoli'n briodol.

Ar y cyfan, roedd y systemau ar gyfer sicrhau diogelwch y cyfarpar, y broses cynnal a chadw a'r trefniadau llywodraethu yn gadarn ac wedi'u dogfennu'n dda.

### **Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Roedd y gwasanaeth wedi rhoi amrywiaeth o ganllawiau clinigol seiliedig ar dystiolaeth ar waith, gan gynnwys canllawiau NICE, safonau Cymdeithas Anesthetyddion Prydain Fawr ac Iwerddon (AAGBI), canllawiau'r Cyngor Adfywio, argymhellion AFPP a gweithdrefnau NATSIPP, er mwyn sicrhau bod gofal cleifion yn cyd-fynd â'r arferion gorau cydnabyddedig. Roedd polisiâu a gweithdrefnau clinigol wedi'u cytuno a'u mabwysiadu drwy gyfuniad o bolisiâu ar lefel grŵp a gweithdrefnau NATSIPP.

Roedd y staff wedi cael gwybod am ganllawiau newydd neu ddiwygiedig drwy'r prosesau sefydledig hyn ac roeddent yn cael eu cefnogi a'u hyfforddi i'w rhoi ar waith yn effeithiol. Roedd bwletinâu a hysbysiadau wedi dod i law drwy'r system llywodraethu clinigol, lle roeddent wedi cael eu hadolygu a'u rhaeadru i'r staff yn ôl yr angen.

Roedd tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus yn cynnwys cofnodion DPP cyfredol ar gyfer pob aelod o'r staff, a oedd yn dangos bod gwersi yn cael eu dysgu'n barhaus drwy archwiliadau, pryderon, a datblygiadau i'r gwasanaeth.

Ar y cyfan, roedd strwythurau llywodraethu clinigol wedi sicrhau bod ymarfer seiliedig ar dystiolaeth, hysbysiadau diogelwch, a datblygiad proffesiynol wedi'u hymgorffori'n effeithiol ym mhob rhan o'r gwasanaeth.

### **Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd**

Roedd ansawdd y gwasanaethau yn cael ei asesu a'i fonitro drwy nifer o ddulliau, gan gynnwys penodiad diweddar Rheolwr Profiad y Claf a Rheolwr Cwynion ym mis Awst a mis Hydref y flwyddyn flaenorol i atgyfnerthu'r broses oruchwylïo.

Roedd adborth gan gleifion wedi cael ei gasglu mewn sawl ffordd, wedi'i adolygu'n rheolaidd, a'i ddefnyddio i lywio gwelliannau, a disgrifiodd y staff enghreifftiau o newidiadau a wnaed o ganlyniad i hynny. Roedd prosesau ar waith yn y gwasanaeth i lunio'r datganiad blynyddol sy'n ofynnol gan AGIC, ac roedd y staff yn deall y weithdrefn ar gyfer rhoi gwybod i AGIC am ddiwyddiadau hysbysadwy, y gellid ei

wneud drwy e-bost, dros y ffôn, neu'n ysgrifenedig. Roedd cofrestr digwyddiadau wedi cael ei chynnal er mwyn sicrhau y rhoddwyd gwybod amdanynt yn briodol.

Ar y cyfan, roedd y trefniadau monitro ansawdd wedi cael eu hatgyfnerthu drwy gyflwyno uwch-rolau arwain, prosesau adborth strwythuredig, a systemau adrodd clir.

### **Technoleg rheoli gwybodaeth a chyfathrebu**

Roedd ymgynoriadau o bell wedi cael eu cynnal drwy ddefnyddio Webex, gyda'r clinigwyr yn pennu addasrwydd yn seiliedig ar anghenion clinigol a dewisiadau'r claf, ac roedd rhai cleifion wedi dewis cael ymgynoriadau fideo lle y bo'n briodol.

Roedd y llwyfan yn ddiogel, wedi'i amgryptio, ac yn gallu recordio galwadau, a oedd yn sicrhau bod ymgynoriadau'n cael eu cynnal yn ddiogel ac yn gyfrinachol. Lle roedd unrhyw luniau'n cael eu tynnu neu recordiadau'n cael eu gwneud yn ystod ymgynoriadau ar-lein, roedd y rhain yn cael eu storio yn y system wedi'i hamgryptio, a oedd yn sicrhau bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei diogelu yn unol â chanllawiau proffesiynol.

Ar y cyfan, roedd ymgynoriadau o bell wedi cael eu rheoli drwy ddefnyddio prosesau diogel a oedd yn cynnal diogelwch a chyfrinachedd y cleifion yn ogystal â goruchwyliaeth glinigol briodol.

### **Rheoli cofnodion**

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion pum claf a gwelsom fod arferion cadw cofnodion o safon gyson uchel ar waith. Roedd y cofnodion wedi'u cwblhau'n llawn ac yn cynnwys tystiolaeth glir o atebolrwydd a phrosesau gwneud penderfyniadau mewn perthynas â gofal cleifion. Roedd cofnodion y cleifion yn gywir, yn gyfredol, yn gyflawn, ac wedi'u hysgrifennu mewn ffordd glir a chryno.

Roedd y cofnodion ar gael yn hawdd pan fo angen, a hynny mewn fformatau ar-lein a phapur, ac roedd trefniadau gwaredu priodol wedi bod ar waith yn unol â'r gofynion rheoliadol. Roedd systemau storio diogel a oedd yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data wedi'u defnyddio i ddiogelu gwybodaeth am gleifion. Roedd system rheoli cofnodion effeithiol, gan gynnwys y system TG, wedi helpu'r gwasanaeth i drin dogfennaeth glinigol mewn ffordd ddiogel a threfnus.

Ar y cyfan, roedd y gwasanaeth wedi dangos trefniadau llywodraethu cadarn a systemau effeithiol ar gyfer cynnal cofnodion o ansawdd uchel.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd Datganiad o Ddiben cyfredol ar gael i gleifion a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol, a gwelsom fod gwasanaethau'n cael eu darparu yn unol â'r datganiad hwnnw. Roedd y Canllaw i Gleifion hefyd yn gyfredol ac yn hygyrch.

Roedd strwythurau adrodd ac atebolrwydd clir ar waith, gan gynnwys cyfarfodydd misol yr Uwch-dîm Arwain a chyfarfodydd Llywodraethu Clinigol misol, wedi'u hategu gan gyfarfodydd atal a rheoli heintiau, ymarfer rheoleiddio, iechyd a diogelwch, a diogelu bob chwarter, yr oedd gan bob un ohonynt gylch gorchwyl ffurfiol.

Roedd polisiau a gweithdrefnau yn cael eu hadolygu drwy broses strwythuredig lle roedd copïau drafft yn cael eu rhannu â'r rheolwyr a'u cyflwyno i'r grŵp Llywodraethu Clinigol am sylwadau cyn llunio'r fersiwn derfynol. Roedd y staff yn cael eu hysbysu am bolisiau newydd neu ddiwygiedig drwy hysbysiadau awtomatig ar lwyfan llywodraethu Radar, lle roedd yr holl bolisiau, Gweithdrefnau Gweithredu Safonol, dogfennau rheoli risg, archwiliadau, digwyddiadau a chwynion yn cael eu storio.

Roedd hysbysiadau diogelwch, gan gynnwys y rheini gan MHRA a Llywodraeth Cymru, yn cael eu hadolygu mewn cyfarfodydd llywodraethu misol a'u rhaedru i'r rheolwyr perthnasol i'w rhoi ar waith.

Roedd tystysgrif cofrestru Gymraeg AGIC wedi'i harddangos, a gwnaed cais i'r gwasanaeth arddangos y fersiwn Saesneg; roedd y manylion ar y dystysgrif yn gywir, ond dim ond enw'r busnes oedd yn cael ei ddangos. Roedd dogfennau yswiriant atebolrwydd cyflogwyr ac atebolrwydd cyhoeddus wedi'u harddangos yn y fynedfa.

Ar y cyfan, roedd y gwasanaeth yn cael ei arwain a'i reoli'n dda ac roedd prosesau llywodraethu strwythuredig ar waith. Roedd cyfarfodydd recriwtio wythnosol hefyd yn cael eu cynnal er mwyn adolygu clinigau yn unigol a thrafod hyfforddiant, arfarniadau, swyddi gwag, a chyfnodau sefydlu, ac roedd y cofnodion yn cael eu darparu fel tystiolaeth o oruchwyliaeth barhaus.

## Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd cleifion yn cael gwybod am y weithdrefn gwyno drwy wybodaeth glir wedi'i harddangos ar wefan y clinig ac yn y clinig, ac roedd y broses ar gael mewn fformatau a oedd yn addas i ddiwallu anghenion cyfathrebu gwahanol.

Roedd cwynion yn cael eu cofnodi a'u cydnabod, ac roedd y clinig yn ymateb iddynt mewn modd amserol, ac roedd y Rheolwr Cwynion a Rheolwr Profiad y Claf yn cynnal ymchwiliadau'n agored.

Roedd y polisi cwynion yn gyfredol ac yn cynnwys yr holl fanylion rheoliadol gofynnol. Roedd cleifion yn cael cynnig cymorth pan fo angen, ac roedd gwersi a ddysgwyd o gwynion yn canolbwyntio ar wella'r broses o reoli disgwyliadau, prosesau cydsynio a gwybodaeth cyn llawdriniaeth.

Roedd cofrestr cwynion yn cael ei chadw a oedd yn nodi ymchwiliadau, canlyniadau, a chymau ar gyfer gwella. Roedd y staff yn deall y weithdrefn ar gyfer rhoi gwybod i AGIC am ddigwyddiadau hysbysadwy, a dywedwyd y staff y byddent yn rhoi gwybod am ddigwyddiadau drwy e-bost, dros y ffôn, neu'n ysgrifenedig.

Gwelsom fod 14 o gwynion wedi cael eu cofnodi dros y flwyddyn ddiwethaf, yr oedd wyth ohonynt wedi'u datrys ar gam un a chwech wedi'u datrys ar gam dau. Nid oedd yr un o'r cwynion wedi cyrraedd cam tri, sef y cam dyfarnu. Roedd y Rheolwr Cwynion wedi archwilio'r holl gwynion agored a oedd yn dyddio'n ôl i fis Ionawr 2025 ac roedd wrthi'n eu prosesu ochr yn ochr ag achosion newydd. Roedd pob cynwyn yn cael ei holrhain ar gofnodlyfr cwynion ac roedd cynlluniau ar waith i drosglwyddo'r system i Radar. Roedd galwadau gweithredol dyddiol am 9:45am a 4pm yn sicrhau bod modd nodi pryderon posibl yn gynnar.

Ar y cyfan, roedd y broses gwyno yn strwythuredig, yn dryloyw, ac yn cael ei defnyddio'n effeithiol i gefnogi dysgu a gwelliant i'r gwasanaeth.

### **Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu**

Roedd y gwasanaeth yn dilyn proses recriwtio ddiogel, wedi'i hategu gan bolisi recriwtio cyfredol. Roedd gwiriadau cyn cyflogi yn cael eu cynnal yn unol â'r gofynion rheoliadol, gan gynnwys prawf adnabod, gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar y lefel briodol, geirdaon cyflogaeth, dilysu cymwysterau, hanes cyflogaeth llawn, a thystiolaeth o gofrestriad proffesiynol lle y bo'n briodol.

Roedd rheolwr yr adran Adnoddau Dynol yn gwirio cofrestriadau proffesiynol bob mis, ac roedd negeseuon e-bost yn cael eu hanfon at y rheolwr cofrestredig i ddilysu cydymffurfiaeth. Roedd addasrwydd parhaus i weithio yn cael ei fonitro drwy adnewyddu gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd bob tair blynedd a chynnal prosesau goruchwyllo rheolaidd.

Roedd breintiau ymarfer ar gyfer clinigwyr yn cael eu rheoli gan yr arweinydd dynodedig, er mwyn sicrhau bod prosesau llywodraethu ac awdurdodi priodol ar waith.

Ar y cyfan, roedd y gwiriadau recriwtio a'r gwiriadau o'r gweithlu yn gadarn, ac roedd systemau cadarn ar waith i sicrhau bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant, yn gymwysedig, ac yn addas i gwblhau eu rolau.

### **Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol**

Roedd y gwasanaeth wedi sicrhau bod lefelau staffio priodol ar waith drwy drefnu staff yn unol â'r galw gan gleifion, ac roedd nyrs sgryb glinigol, cynorthwydd gofal iechyd, a derbynnydd ar y safle bob amser. Roedd y staff yn gweithio'n hyblyg yn y clinigau yng Nghaerdydd a Birmingham, a oedd yn sicrhau parhad a gwydnwch. Roedd hyfforddiant gorfodol yn cael ei ddarparu ar-lein ac yn cael ei fonitro drwy'r system adnoddau dynol er mwyn sicrhau bod y staff yn meddu ar y sgiliau a'r cymwyseddau gofynnol o hyd.

Roedd y staff yn cael eu cefnogi i godi unrhyw bryderon drwy bolisi chwythu'r chwiban cyfredol, ac roedd posteri "Lleisio Barn" clir wedi'u harddangos yn yr ystafell staff. Roedd trefniadau sefydlu, goruchwyllo, arfarnu, a sicrhau cydymffurfiaeth â'r cod ymddygiad ar waith ar lefel grŵp, ac roedd cymorth ac arweiniad parhaus ar gael i'r staff.

Roedd hysbysfwrdd yn yr ystafell staff yn cynnwys gwybodaeth hygyrch, gan gynnwys cysylltiadau diogelu, "Polisi'r Mis", diweddariadau clinigol, adnoddau llesiant, cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio LanguageLine, cylchlythyrau, gwersi a ddysgwyd, ac enghrefftiau o adborth gan gleifion.

Ar y cyfan, roedd systemau wedi bod ar waith i sicrhau bod y lefelau staffio yn ddiogel, yn cael eu llywodraethu'n dda, ac yn cefnogi datblygiad y staff a phrosesau cyfathrebu.

## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

## Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth:** Signature Clinic, Caerdydd

**Dyddiad yr arolygiad:** 16 Ionawr 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**

# Atodiad C - Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** Signature Clinic, Caerdydd

**Dyddiad yr arolygiad:** 16 Ionawr 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Yn ystod ein harolygiad, gwelsom nad oedd y llawr ger mynedfa Theatr 2 wedi'i orffen. Roedd hyn yn peri risg o faglu ynghyd â materion rheoli heintiau.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y llawr ei atgyweirio cyn gynted â phosibl a darparu tystiolaeth o hyn i AGIC.	Yr Amgylchedd  Rydym wedi trefnu i waith atgyweirio gael ei gwblhau.  Caiff tystiolaeth ei chyflwyno i AGIC pan fydd y llawr wedi'i atgyweirio.	Valerie Taylor  Valerie Taylor	03/04/2026  10/04/2026

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau):** Valerie Taylor

**Teitl swydd:** Unigolyn Cyfrifol

Dyddiad: 27/03/2026